# Daliadau a Safbwyntiau am Greadigrwydd

## Pwrpas

Gellir defnyddio'r gweithgaredd yma i helpu rhieni a chymuned ehangach yr ysgol i ddatblygu dealltwriaeth am greadigrwydd a pham ei fod mor bwysig.  Bydd hyn yn eich cynorthwyo chi i ymgysylltu â nhw a meithrin dealltwriaeth ehangach am eu safbwyntiau a'u daliadau, gan hwyluso dialog parhaus ar bwysigrwydd meddwl creadigol ac ennyn eu cefnogaeth i uchelgeisiau, gweledigaeth a chynlluniau'ch ysgol.

Mae'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau o/gweithgareddau i gasglu safbwyntiau sy'n cynnig ffyrdd amgen i rieni/y gymuned ymgysylltu.

Gellir cyflawni hyn ar wahanol gamau ar siwrnai greadigol eich ysgol, a gellir ei gyflawni drosodd a thro hefyd er mwyn monitro ac adolygu newidiadau mewn meddylfryd.

## Adnoddau a threfnu

### Cynnwys yr arolwg - datganiadau/cwestiynau a graddfa mynegi barn (ceir awgrymiadau yn Adnodd 1 - **Datganiadau/Cwestiynau'r Arolwg a Graddfa Mynegi Barn**).


Y Deunyddiau a'r Adnoddau ar gyfer eich dull dethol o gyflawni'r arolwg - gweler isod.

**Y dull Arolwg Digidol -**

- Lanlwythwch eich arolwg i offeryn digidol (er enghraifft SurveyMonkey, Google Forms, Canva, Menti neu Kahoot!)

**Y dull Botymau Recordio Llais -**

- Recordiwch bob un o'ch datganiadau/ cwestiynau ymlaen llaw gan ddefnyddio botymau recordio llais (mae'r botymau hyn ar gael gan amrywiaeth o adwerthwyr ar lein, a gellir eu hailddefnyddio)
- Poster cyfarwyddyd (ceir awgrym yn **Adnodd 2 - Poster Cyfarwyddyd Botymau Recordio Llais**)
- Siart cofnodi ar bapur siart droi/bwrdd gwyn (gweler y llun yn *Esiampl A*).
- Smotiau gludiog neu beniau marcio i'r cyfranogwyr gofnodi eu hymatebion.




*Esiampl A.*

## Cychwyn arni


Ystyriwch sut y gallai plant a phobl ifanc chwarae rôl ymarferol ar wahanol gamau yn y gweithgaredd yma.

Penderfynwch pwy fydd:

- yn arwain y gweithgaredd yma
- yn llunio, yn profi ac yn cwblhau eich arolwg
- yn penderfynu ar eich dull o arolygu ac yn llunio'ch arolwg
- yn casglu, yn dadansoddi ac yn rhannu eich canfyddiadau
- yn ysgrifennu'r adroddiad ar eich canfyddiadau
- yn bwydo eich canfyddiadau nôl
- yn cytuno ar eich camau nesaf.

**Dull y Siart Droi/Bwrdd Gwyn** (ar wal neu fwrdd) -

- Eich arolwg mewn geiriau (gweler *Esiampl B).*
- Smotiau gludiog neu beniau marcio i'r cyfranogwyr gofnodi eu hymatebion
- Poster cyfarwyddyd (mae awgrym ar gyfer hyn yn **Adnodd 3 - Poster Cyfarwyddyd Siart Droi/Bwrdd Gwyn).**




*Esiampl B.*

**Dull yr Orsaf Arolygu -**

- poster cyfarwyddyd (ceir awgrym yn **Adnodd 4 – Poster Cyfarwyddyd Gorsaf Arolygu Creadigrwydd)**
- Bonyn arolygu (ceir awgrym yn **Adnodd 5 - Bonyn Arolygu Creadigrwydd**)
- Peniau a blwch i bostio'r bonion arolygu.

Adnoddau myfyrio - gweler isod.

Gallech ddewis cymharu eich canfyddiadau gan ddefnyddio **Adnodd 6 - Dyfyniadau o Ganlyniadau PISA 2022 - Meddyliau Creadigol Ysgolion Creadigol.**

Gallech ddewis defnyddio **Meddwl Creadigol mewn Ysgolion - Chwaraelyfr i Arweinwyr** i hwyluso gweithgareddau dilynol.

| | |
|---|---|
| **Hyd**<br>Bydd hyn yn dibynnu ar eich dull(iau) arolygu a sut rydych chi'n penderfynu casglu, dadansoddi ac adrodd ar yr ymatebion. | |

## Gallai'r gweithgaredd yma ddatblygu eich arfer creadigol o...




| inquisitive | persistent | collaborative | disciplined | imaginative |
|---|---|---|---|---|
| Archwilio ac ymchwilio<br><br>Herio rhagdybiaethau | | Rhannu'r cynnyrch | Myfyrio'n feirniadol | |

### Cam 1

Penderfynu daliadau a safbwyntiau pwy am greadigrwydd ydych chi am eu casglu?  Er enghraifft, rhieni plant newydd, rhieni plant o grŵp blwyddyn penodol, pob rhiant, neu eich cymuned ysgol ehangach. Yn nes ymlaen, efallai y gallech gasglu safbwyntiau'r holl fyfyrwyr, staff a llywodraethwyr, a chymharu'r canfyddiadau hyn â rhai'r rhieni.

Cytunwch beth rydych chi am ei ddysgu a lluniwch gynnwys eich arolwg (mae awgrymiadau am hyn yn **Adnodd 1**).

Penderfynwch ar eich dull(iau) o arolygu, gallech ddefnyddio mwy nag un i gynhyrchu nifer fwy o ymatebion.

Penderfynwch ymhle y byddwch chi'n cyflawni'r arolwg.  Gallai dulliau'r Botymau Recordio Llais, yr Orsaf Arolygu neu'r Siart Droi/Bwrdd Gwyn weithio'n dda mewn noson rhieni, mewn digwyddiad ysgol neu gymunedol, gellid eu gosod yn nerbynfa'r ysgol neu mewn lle yn y gymuned am gyfnod.

Ystyriwch sut y byddwch chi'n dadansoddi'r ymatebion ac yn adrodd nôl arnynt.

### Cam 2

Cyflawnwch eich arolwg gan ddefnyddio eich dull(iau) a'ch amserlen dethol.

### Cam 3

Dadansoddwch yr ymatebion i'ch arolwg a phenderfynwch ar y camau nesaf (mae awgrymiadau yn yr adran **Cyd-fyfyrio**).

## Cyd-fyfyrio

- Beth mae'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg yn ei ddweud wrthych, a beth yw'r canfyddiadau allweddol yn nhermau daliadau a safbwyntiau am greadigrwydd?
- Gallech gymharu eich canfyddiadau â chanlyniadau Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA) y Sefydliad Cydweithio a Datblygu Economaidd (OCED) o 2022 - a ddyfynnir ym Meddyliau Creadigol, Ysgolion Creadigol – **Adnodd 6**.
- Ar ôl bwydo'r canfyddiadau nôl i gymuned eich ysgol (er enghraifft, rhieni, llywodraethwyr, staff) beth wnaethoch chi ei ddarganfod o'u hymatebion? A gawsoch fandad cadarnach/cefnogaeth y rhieni i ddatblygu gweledigaeth newydd ar gyfer eich ysgol?
- Beth fydd eich **camau nesaf** fel ysgol? Gallai'r rhain gynnwys:
    - Gwahodd grŵp penodol o rieni i sesiwn grŵp ffocws i archwilio a datblygu eu dealltwriaeth am greadigrwydd ymhellach. Gallai'r gweithgareddau canlynol o'r Chwaraelyfr hwyluso trafodaeth y grŵp ffocws yma: Gweithgaredd 1 - Deall Hanfodion Creadigrwydd - Tudalen 10 neu Weithgaredd 18 – Chwalu'r Mythau am Greadigrwydd – Tudalen 62.
    - Rhannu gwybodaeth/tystiolaeth am bwysigrwydd datblygu meddwl creadigol - mae Tudalennau 12 a 13 o'r Chwaraelyfr yn cynnig esboniad o'r achos dros greadigrwydd mewn ysgolion o amrywiaeth o safbwyntiau.
    - Cyflawni'r un arolwg gyda phobl ifanc yn yr ysgol, a chymharu beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng y canfyddiadau hyn.
    - Cynnal digwyddiad sy'n dangos sut mae meddwl creadigol yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol bynciau ac mewn gwahanol grwpiau blwyddyn ar draws yr ysgol.
    - Cymharu canfyddiadau'r arolwg â gweledigaeth eich ysgol.
    - Defnyddio'r arolwg fel sylfaen a'i gyflawni eto'n ddiweddarach er mwyn cymharu newidiadau mewn daliadau a safbwyntiau.